

Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfer Cynnull a Chynnal Cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau

Rheoliad 15: 2018 Fersiwn 01
Mewn grym: 1 Mai 2018



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Dyddiad	Yn Disodli	Disgrifiad o'r Newid
1 Mai 2018.	Fersiwn 2014.	Diweddariad cyffredinol.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad y Cymeradwywyd	Amllder Adolygu
Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	11 Ebrill 2018.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfer Cynnull a Chynnal Cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae'r Rheoliad hwn yn amlinellu rôl a dirprwyathau Byrddau Astudiaethau.

Rhagarweiniad

1. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rheoliadau ar gyfer Byrddau Astudiaethau a chanllawiau ar gyfer cynnull a chynnal Byrddau Astudiaethau. Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r gofynion ac yn darparu fframwaith ar gyfer arfer da. Ei bwriad yw safoni cyfrifoldebau a threfniadau gweithredu ar draws y Brifysgol.
2. Er hwylustod cyfeirio rhennir y ddogfen hon yn bedair adran:
 - a) Cyfrifoldebau
 - b) Cynrychiolaeth
 - c) Cynllun Awdurdod Dirprwyedig
 - d) Gweinyddiaeth (cofnodion, agenda ac eitemau sefydlog)

Cyfrifoldebau

3. Rhaid bod gan bob Ysgol Fwrdd Astudiaethau. Y Bwrdd Astudiaethau yw'r corff uchaf ym mhob ysgol i wneud penderfyniadau ar bob mater academaidd gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â pholisiau'r ysgol, addysgu ac asesu, gweithgareddau ymchwil, rhaglenni hyfforddedig ac ymchwil, myfyrwyr yn symud ymlaen a meini prawf derbyn.
4. Mae gan Fwrdd Astudiaethau'r cyfrifoldebau canlynol:
 - Gweithredu fel awdurdod academaidd yr ysgol.
 - Gwneud argymhellion i Bennaeth yr Ysgol neu bwyllgorau'r coleg/ysgol ar faterion academaidd.
 - Cynghori'r brifysgol ar faterion academaidd (er enghraifft, trwy gyfrwng grwpiau tasg neu is-bwyllgorau'r Senedd).
 - Argymell enwau pobl a fyddai'n addas i'w penodi'n arholwyr allanol.
 - Cymeradwyo unigolion ar gyfer penodiadau er anrhydedd yn yr ysgol.
 - Ystyried ac adrodd ar faterion a gyfeirir at Fyrddau Astudiaethau gan y brifysgol.
5. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol gadeirio'r Bwrdd Astudiaethau. Os na all Pennaeth yr Ysgol fod yn bresennol mewn cyfarfod penodol, gall enwebu dirprwy ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Serch hynny, ni ddylai Pennaeth yr Ysgol ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn yn aml neu'n rheolaidd.
6. Mae Penaethiaid Ysgol yn gyfrifol am:
 - Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â rheoliadau'r brifysgol mewn perthynas â'r Bwrdd Astudiaethau.
 - Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â pholisiau cyffredinol y brifysgol.

- Cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Astudiaethau'n effeithiol.
7. Rhaid i Fwrdd Astudiaethau weithredu fel Bwrdd Arholwyr i bob rhaglen hyfforddedig mewn ysgol. Diffinnir cyfansoddiad a chyfrifoldebau Byrddau Arholwyr yn Rheoliadau a Dulliau Gweithredu a Chod Ymarfer Asesu Myfyrwyr ar Gyrsiau Israddedig a Chyrsiau Ôl-radd Hyfforddedig.
 8. Rhaid sefydlu Byrddau Rhaglen ar y Cyd ar gyfer cyrsiau a ddarperir o dan delerau trefniant cydweithredol rhwng y Brifysgol a sefydliad arall. Diffinnir cyfansoddiad a chyfrifoldebau Byrddau Rhaglen ar y Cyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol.

Cynrychiolaeth

9. Mae gofyn i bob ysgol gynnal isafswm o ddau gyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau ym mhob blwyddyn academaidd. I hwyluso presenoldeb a chyfranogiad myfyrwyr, dylid cynnal cyfarfodydd yn ystod yr wythnosau addysgu ym mhob semester ac o ddewis o fewn wythnosau addysgu 1 - 10 er mwyn osgoi gwrthdaro â'r paratoi ar gyfer arholiadau diwedd semester.
10. Disgwylir i'r holl aelodau staff academaidd fod yn bresennol ym Mwrdd Astudiaethau eu hysgol. Cadarnheir presenoldeb staff yn y cofnodion. Dylid nodi enwau'r staff nad ydynt yn bresennol yn y cofnodion, fel ymddiheuriadau neu absenoldebau. Os yw staff academaidd yn absennol yn rheolaidd o'r Bwrdd Astudiaethau dylai Pennaeth yr Ysgol nodi hyn ac ymchwilio i'r mater.
11. Cyfranogiad myfyrwyr
 - a) Disgwylir cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau. Dylai nifer y myfyrwyr sy'n mynychu'r cyfarfodydd adlewyrchu cyfanswm y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Dylai'r isafswm cynrychiolwyr myfyrwyr fod fel a ganlyn:
 - Llai na 300: 3 myfyriwr
 - Rhwng 300 a 400 Cyfwerth Amser Llawn: 4 myfyriwr
 - Mwy na 400 Cyfwerth Amser Llawn: 5 myfyriwrY nifer hon yw'r isafswm gofynnol ac er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn llawn awgrymir bod nifer fwy o fyfyrwyr yn cael eu gwahodd.
 - b) Rhaid i ysgolion sicrhau bod myfyrwyr o wahanol flynyddoedd a chyrsiau'n cael eu cynrychioli. Disgwylir bod o leiaf un cynrychiolydd myfyrwyr o'r rhaglenni israddedig, un cynrychiolydd o'r rhaglenni ôl-radd hyfforddedig ac un cynrychiolydd o'r rhaglenni ymchwil ôl-radd. Dylid hefyd ystyried cynnwys cynrychiolaeth o fyfyrwyr rhan-amser, yn enwedig mewn ysgolion sydd â nifer sylweddol o fyfyrwyr rhan-amser.
 - c) Anogir ysgolion i gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr, trwy gynrychiolwyr cwrs enwebedig a Phwyllgorau Cyswllt Myfyrwyr Staff, ynghylch ffyrdd i annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau. Os yw cynrychiolwyr cwrs ac ysgolion academaidd yn mynd ati i drafod a chadw mewn cysylltiad, mae hyn yn tueddu i hybu cyfranogiad a phresenoldeb myfyrwyr yn y Bwrdd Astudiaethau. Disgrifir Pwyllgorau Cyswllt Staff Myfyrwyr yn y Cod Ymarfer ar gyfer System Cynrychiolwyr Cyrsiau.

- d) Mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi'n gryf bresenoldeb a chyfranogiad myfyrwyr mewn cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau. Er mwyn helpu i hwyluso cynrychiolaeth ddigonol gan fyfyrwyr bydd Undeb y Myfyrwyr yn hyrwyddo ymarfer gorau trwy enwebu myfyrwyr i fod yn aelodau o Fyrddau Astudiaethau o bob Pwyllgor Cyswllt Staff Myfyrwyr.

12. Bydd gan Fwrdd Astudiaethau'r awdurdod i gyfethol y canlynol fel aelodau ymgynghorol am gyfnod o flwyddyn:

- Staff academiaidd o ysgol arall
- Staff anacademaidd yr ysgol
- Myfyrwyr ychwanegol yn yr ysgol.

Ni fydd gan aelodau ymgynghorol yr hawl i bleidleisio.

13. Ni ddylai cyfanswm nifer y myfyrwyr ac aelodau cyfetholedig ar y bwrdd fod yn fwy na nifer y staff academiaidd. Os yw'n debygol na fydd modd cyflawni'r amod hwn, rhaid i'r ysgol drafod aelodaeth y Bwrdd Astudiaethau gyda'r Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

14. Mae gan y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu (neu ei enwebai) yr awdurdod i fynychu unrhyw gyfarfod Bwrdd Astudiaethau.

Cynllun Awdurdod Dirprwyedig

15. Er mai'r Bwrdd Astudiaethau yw'r corff uchaf ym mhob ysgol i wneud penderfyniadau ar faterion academiaidd, gall ddirprwyo cyfrifoldeb i is-bwyllgor neu is-bwyllgorau (a fydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Astudiaethau). Lle mae dirprwyo o'r fath yn digwydd, mae'r brifysgol yn ystyried y canlynol yn briodol:

- a) Dylai'r Bwrdd Astudiaethau baratoi a chymeradwyo cynllun awdurdod dirprwyedig ysgrifenedig. Ceir enghraifft o gynllun awdurdod ysgrifenedig yn Atodiad A.
- b) Dylid adolygu'r cynllun awdurdod dirprwyedig ysgrifenedig bob hyn a hyn a'i gofnodi yng nghofnodion y Bwrdd Astudiaethau.
- c) Dylai pob pwyllgor neu grŵp ag awdurdod dirprwyedig adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau, gan ddarparu cofnodion neu adroddiadau fel bo'n briodol, gan greu llwybr archwilio clir. Mae angen i'r Bwrdd Astudiaethau gymeradwyo'r adroddiadau a'r cofnodion hyn, neu fel arall, a dylid cofnodi'r canlyniad hwn yn y cofnodion.

Gweinyddu

16. Er mwyn cynnal ymarfer da a safoni fformatiau cyfarfodydd ar draws y brifysgol, rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r canlynol:

- a) Rhaid gwneud cofnodion ffurfiol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau. Dylai'r cofnodion nodi'r pynciau unigol a drafodwyd, cynnwys crynodeb o'r pwyntiau trafod a phwysleisio unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, gan nodi enw'r unigolyn neu'r pwyllgor sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cam gweithredu yn cael ei gyflawni.

- b) Dylid nodi'n eglur eitemau a ddygir gerbron y cyfarfod gan bwyllgorau dirprwyedig neu grwpiau megis y Pwyllgor Addysgu a Dysgu neu'r Pwyllgor Cyswllt Staff Myfyrwyr.
- c) Pan fydd y Cadeirydd wedi cymeradwyo cofnodion y Bwrdd Astudiaethau, heb eu cadarnhau, dylid anfon copi at y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu.
- d) Cadarnheir rhestr presenoldeb lawn yn y cofnodion, naill ai ar ffurf enwau llawn neu fyrfoddau (gyda rhestr gysylltiedig yn cysylltu'r enwau llawn â'r byrfoddau). Argymhellir peidio â defnyddio blaenlythrennau'n unig oherwydd
 - o Gall unrhyw gynulleidfa o'r tu allan i'r ysgol gael trafferth i ddeall pwy yw pwy.
 - o Gall adnabod myfyrwyr wrth flaenlythrennau eu henwau fod yn broblem, yn enwedig mewn ysgolion mawr.
 - o Nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng staff, myfyrwyr neu aelodau ymgynghorol.
- e) Dylid nodi'n glir yn y cofnodion enwau'r myfyrwyr sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau. Dylid cynnwys hefyd lefel ddysgu pob cynrychiolydd myfyrwyr.
- f) Nid oes angen i fyfyrwyr aros tan ddiwedd y cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau a gallant adael cyn y diwedd (fel maent yn gweld yn dda). Mae'n syniad da gosod materion yn ymwneud â myfyrwyr yn gynnar ar agenda'r cyfarfod, cyn trafod materion yn ymwneud â staff ac a gweinyddiaeth yr ysgol.
- g) Argymhellir peidio â defnyddio Materion Cyfyngedig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau, lle mae myfyrwyr yn cael eu cau allan o'r drafodaeth, gan yr ystyrir mai fforwm polisi yw'r Bwrdd Astudiaethau ac nid grŵp rheoli. Oherwydd hyn, ni ddylai fod unrhyw eitemau neu drafodaethau sy'n ymwneud ag unigolion.

Mae Atodiad B yn dangos Agenda sampl sy'n cynnwys eitemau rheolaidd y dylid eu trafod ym mhob Bwrdd Astudiaethau neu mewn Byrddau Astudiaethau penodol.

17. Rhaid i'r Bwrdd Astudiaethau ethol un o'i aelodau yn ysgrifennydd y bwrdd. Bydd yr ysgrifennydd yn gyfrifol am weinyddu'r bwrdd, yn cynnwys rhoi gwybod am gyfarfodydd, paratoi'r agenda a phapurau a bod yn gyfrifol am gywirdeb y cofnodion.

18. Dylid cynnwys y dogfennau canlynol fel eitemau ar wahân ar yr Agenda er mwyn caniatáu ar gyfer ystyriaeth lawn a manwl o adroddiadau sicrwydd ansawdd:

Adroddiad	Cyfarfod
Ffurflen QA1	Semester 1
Adroddiad yr Arholwr Allanol	Semester 1
Adroddiadau NSS	Semester 1
Archwiliad Ansawdd Mewnol (os yw'n berthnasol)	Bwrdd Astudiaethau cyntaf ar ôl derbyn yr adroddiad

Atodiad A**Cynllun Awdurdod Dirprwyedig**

Y Bwrdd Astudiaethau yw'r corff uchaf ym mhob ysgol i wneud penderfyniadau ar faterion academaidd. Er hynny, gall Bwrdd Astudiaethau ddirprwyo rhai cyfrifoldebau penodol i is-bwyllgor neu is-bwyllgorau. Rhaid dirprwyo yn y modd hwn er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu trin yn amserol ac yn effeithlon. Lle mae hyn yn digwydd, rhaid nodi'n eglur unrhyw gyfrifoldebau a ddirprwyir mewn 'cynllun awdurdod dirprwyedig' fel yr amlinellir isod. Dylid cyflwyno adroddiadau pob is-bwyllgor i'r Bwrdd Astudiaethau yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Gellir ystyried y rhain 'i'w gweithredu' neu 'er gwybodaeth' fel y bo'n briodol.

Mae gofyn bod gan bob ysgol Pwyllgor Cyswllt Staff- Myfyrwyr. Argymhellir bod pwyllgor ym mhob ysgol hefyd sydd yn dwyn y prif gyfrifoldeb am addysgu a dysgu. Er hynny, cydnabyddir bod y strwythurau trefniadol yn wahanol mewn ysgolion gwahanol ac felly nad oes un 'model' a fydd yn addas i'r holl ysgolion. Pa strwythurau bynnag sy'n bodoli rhaid i'r cynllun awdurdod dirprwyedig nodi lle mae'r eitemau a restrir yn y golofn gyntaf yn cael eu hystyried ac/neu eu cymeradwyo.

Eitem	Nodiadau
	Rhaid i'r cynllun awdurdod dirprwyedig restru, yn y golofn hon, pa bwyllgor yn yr ysgol sy'n gyfrifol am yr eitemau a restrir yn y golofn gyntaf.
Adroddiadau Allanol	
Adroddiadau Arholwyr Allanol	Rhaid sicrhau bod y rhain ar gael i fyfyrwyr a'u bod yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Staff-Myfyrwyr. Dylent fod ar gael hefyd yn y Bwrdd Astudiaethau ond gellid dirprwyo'r gwaith o roi ystyriaeth fanwl iddynt i Bwyllgor Addysgu a Dysgu neu bwyllgor tebyg.
Adroddiadau gan gyrrff proffesiynol, statudol, rheoleiddiol neu achredu.	Dylai'r rhain fod ar gael yn y Bwrdd Astudiaethau ond gellid dirprwyo'r gwaith o roi ystyriaeth fanwl iddynt i Bwyllgor Addysgu a Dysgu neu bwyllgor tebyg.
Monitro rhaglenni'n flynyddol	
Ffurflenni QA1	Rhaid i grŵp penodedig yn yr ysgol ystyried a chymeradwyo'r rhain cyn eu cadarnhau.
Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr	Dylid cyflwyno'r rhain i'r Bwrdd Astudiaethau
Cynllun Gweithredu Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr	Gallai is-bwyllgor ddatblygu hwn ond dylid adrodd i'r Bwrdd Astudiaethau amdano.
Monitro modiwlau'n flynyddol	
Ffurflenni QA2	Disgwylir bod gan ysgolion system yn ei lle fydd yn eu galluogi i oruchwylio modiwlau'n ganolog ac yn gydlynol er mwyn caniatáu delio ag unrhyw faterion sy'n codi yn
Adborth o'r gwerthusiadau modiwl	
Adroddiadau ARQUE	

Eitem	Nodiadau
	effeithiol a chyfathrebu newidiadau arfaethedig i fudd-ddeiliaid perthnasol, a all fod yn ysgolion eraill.
Archwiliadau ansawdd mewnol	
Adroddiadau'r Archwiliad Ansawdd Mewnol	Dylid cyflwyno'r rhain a'u trafod yn y Bwrdd Astudiaethau.
Ymateb 12 mis i'r Adroddiad Archwiliad Ansawdd Mewnol	Dylai hwn gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Astudiaethau.
Modiwlau a rhaglenni newydd	
Dylid trafod cynigion ar gyfer rhaglenni newydd neu newidiadau i raglenni presennol.	Rhaid i grŵp penodedig yn yr ysgol ystyried y rhain a'u cymeradwyo, cyn i Bennaeth yr Ysgol eu cadarnhau'n swyddogol.
Cynigion ar gyfer modiwlau newydd neu newidiadau i fodiwlau presennol.	Rhaid i grŵp penodedig yn yr ysgol ystyried y rhain a'u cymeradwyo, cyn i Bennaeth yr Ysgol eu cadarnhau'n swyddogol.
Myfyrwyr ymchwil	
Materion cyffredinol yn codi mewn perthynas â myfyrwyr ymchwil neu eu hadroddiadau monitro blynyddol.	Gallai'r rhain gynnwys materion a godwyd gan fyfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi bod yn addysgu. Rhaid i'r rhain gael eu hystyried gan grŵp penodedig yn yr ysgol.
Enwebiadau ac argymhellion	
Argymhellion ar gyfer Penodiadau er Anrhydedd	Rhaid i'r rhain gael eu hystyried gan grŵp penodedig yn yr ysgol.
Enwebiadau ar gyfer Arholwyr Allanol newydd ar gyfer rhaglenni hyfforddedig.	Dylid adrodd am y rhain i'r Bwrdd Astudiaethau.
Is-bwyllgorau	
Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr	Dylid cyflwyno cofnodion yr holl gyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyswllt Staff Myfyrwyr i'r Bwrdd Astudiaethau.
Bwrdd Rhaglen ar y Cyd	Mae gan nifer fach o ysgolion Fyrddau Rhaglen ar y cyd ar gyfer rhaglenni wedi eu breinio. Dylid ystyried cofnodion y Bwrdd Rhaglen ar y Cyd yn y Bwrdd Astudiaethau.

Eitem	Nodiadau
Is-bwyllgorau eraill	Dylai'r rhain i gyd adrodd i'r Bwrdd Astudiaethau.

Atodiad B

Agenda

Dylid ystyried y canlynol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Astudiaethau

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Eitemau dilynol/heb eu trafod o gyfarfodydd blaenorol
- Adroddiad gan y Pwyllgor Addysgu a Dysgu
- Adroddiad gan y Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr
- Adroddiadau gan yr holl grwpiau neu bwyllgorau eraill ag Awdurdod Dirprwyedig
- Cofnodion Cyfarfodydd Byrddau Rhaglen ar y Cyd (os yw'n berthnasol)
- Adborth gan fyfyrwyr ymchwil
- Unrhyw Fater Arall

Dylid ystyried y canlynol yng nghyfarfod Semester 1 o'r Bwrdd Astudiaethau

- Adroddiadau Arholwyr Allanol
- Ffurflenni QA1
- Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr
- Cynigion ar gyfer rhaglenni newydd

Dylai'r canlynol fod yn eitemau safonol ar agenda cyfarfod Semester 2 o'r Bwrdd Astudiaethau

- Adroddiadau Arholwyr Allanol
- Cynlluniau Gweithredu Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr
- Cynigion ar gyfer modiwlau newydd

Dylai'r canlynol fod yn eitemau agenda wrth i'r angen godi

- Adroddiadau gan unrhyw gorff cyhoeddus, statudol, rheoleiddiol neu achredu fel y byddant ar gael.
- Adroddiadau Archwiliadau Ansawdd Mewnol